

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
07/05/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys
Contents

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services	1
Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog ar Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth Questions to the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport	3

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services

Improving Working Conditions for NHS Staff

Gwella Amodau Gweithio ar gyfer Staff y GIG

Q11 Andrew RT Davies: What action is the Welsh Assembly Government taking to improve working conditions for NHS staff in Wales? OAQ(3)0501(HSS)

C11 Andrew RT Davies: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i wella amodau gweithio ar gyfer staff y GIG yng Nghymru? OAQ(3)0501(HSS)

Edwina Hart: Significant progress has been made since the publication of Designed to Work, the workforce and people management strategy for NHS Wales in July 2006. Policies have been agreed to improve dignity at work and I have set up a task force to deal with violence and aggression against NHS staff.

Edwina Hart: Cafwyd cynnydd sylweddol ers i'r ddogfen Y Cynllun Gwaith, sef y strategaeth gweithlu a rheoli pobl ar gyfer GIG Cymru, gael ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2006. Cytunwyd ar bolisiâu er mwyn gwella urddas yn y gweithle ac rwyf wedi sefydlu tasglu er mwyn ymdrin â thrais ac ymddygiad bygythiol tuag at staff y GIG.

Preventing the Causes of Strokes

Atal yr Hyn sy'n Achosi Strociau

Q12 Ann Jones: What is the Welsh Assembly Government doing to prevent the causes of strokes in Wales? OAQ(3)0539(HSS)

C12 Ann Jones: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i atal yr hyn sy'n achosi strociau yng Nghymru? OAQ(3)0539(HSS)

Edwina Hart: I recently met the Stroke Partnership and we are making progress on stroke prevention and service improvement programme. As more young people have strokes, our Lifestyle Awareness Campaigns need to emphasise the danger more explicitly. Our programmes focus on the causes,

Edwina Hart: Yn ddiweddar cefais gyfarfod â'r Bartneriaeth Strociau ac rydym yn bwrw ati â rhaglen i atal strociau a gwella'r gwasanaeth. Wrth i fwy a mwy o bobl ifanc ddioddef strociau, mae angen i'n Hymgyrchoedd Ymwybyddiaeth am Ffyrdd o Fyw roi mwy o bwyslais ar y perygl. Mae ein

smoking cessation, monitoring high-risk patients and exercise referral.

rhaglenni yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n achosi strociau, ar gynlluniau rhoi'r gorau i smygu, ar fonitro cleifion risg uchel ac ar atgyfeiriadau ymarfer corff.

Catheter Associated Urinary Tract Infections

Heintiadau Llwybr Wrinol sy'n Ymwneud â Chathetr

Q13 Jenny Randerson: What is the Minister doing to reduce the incidence of catheter associated urinary tract infections? OAQ(3)0493(HSS)

C13 Jenny Randerson: Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i leihau nifer yr heintiadau llwybr wrinol sy'n ymwneud â chathetr? OAQ(3)0493(HSS)

Edwina Hart: Our focus in the Healthcare Associated Infections strategies for hospitals and community healthcare settings is to look at all infections and to not concentrate on specific organisms or infections. Under the 2008-9 Annual Operating Framework, trusts have agreed locally based targets, with one trust focussing on reducing urinary tract infections.

Edwina Hart: Yn y strategaethau ar heintiadau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ar gyfer ysbytai a lleoliadau gofal iechyd yn y gymuned, rydym yn edrych ar bob math o heintiadau ac nid ydym yn canolbwyntio ar unrhyw organebau neu heintiadau penodol. O dan Fframwaith Weithredu Flynyddol 2008-09, mae gan yr ymddiriedolaethau dargedau y cytunwyd arnynt yn lleol, gydag un ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar leihau nifer yr heintiadau llwybr wrinol.

Gwasanaethau Adsefydlu Cardiaidd

Cardiac Rehabilitation Services

C14 David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer gwasanaethau adsefydlu cardiaidd? OAQ(3)0523(HSS)

Q14 David Lloyd: Will the Minister make a statement on funding for cardiac rehabilitation services? OAQ(3)0523(HSS)

Edwina Hart: I have ring-fenced £2m within the 2008-09 LHB discretionary allocations for cardiac rehabilitation. I have also made additional support available through the Inequalities in Health Fund for one further year. We are also seeking to link phase IV cardiac rehabilitation with the National Exercise Referral Scheme.

Edwina Hart: Rwyf wedi neilltuo £2 miliwn o fewn y dyraniadau yn ôl disgrisiwn i Fyrddau Iechyd Lleol yn 2008-09 ar gyfer gwasanaethau adsefydlu cardiaidd. Rwyf hefyd wedi darparu rhagor o gymorth drwy'r gronfa Anghydraddoldebau Iechyd am flwyddyn yn rhagor. Yn ogystal â hyn, rydym yn ceisio cysylltu gwasanaethau adsefydlu cardiaidd cam IV gyda'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff.

Enhancing Basic Hygiene in Hospitals

Gwella Hylendid Sylfaenol yn Ysbytai

Q15 Nick Bourne: Will the Minister outline her plans to enhance basic hygiene in our hospitals? OAQ(3)0533(HSS)

C15 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei chynlluniau i wella hylendid sylfaenol yn ein hysbytai? OAQ(3)0533(HSS)

Edwina Hart: I am determined to improve hygiene and cleanliness in hospitals in Wales and I will be launching a report in June containing recommendations to address improvements in hospital cleanliness. My

Edwina Hart: Rydw i'n benderfynol o wella hylendid a glendid mewn ysbytai yng Nghymru a byddaf yn lansio adroddiad ym mis Gorffennaf a fydd yn cynnwys argymhellion i wella glendid mewn ysbytai.

programme of unannounced hygiene inspection team visits will continue.

Bydd fy rhaglen o ymweliadau dirybudd i arolygu hylendid yn parhau.

Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog ar Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Questions to the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport

Supporting Welsh Businesses

Q10 Lesley Griffiths: What is the Welsh Assembly Government doing to help and support Welsh businesses?
OAQ(3)0511(ECT)

The Deputy First Minister: Strong businesses need active support to grow and prosper. To this end, I am driving forward our 'One Wales' commitment to support businesses through flexible support for business, including a single access point, enhanced relationship management and a single investment fund.

Cefnogi Busnesau Cymru

C10 Lesley Griffiths: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i helpu a chefnogi busnesau Cymru?
OAQ(3)0511(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Mae angen cymorth ymarferol ar fusnesau cadarn er mwyn iddynt dyfu a llwyddo. Ar gyfer y perwyl hwn, rwy'n bwrw ati â'n hymrwymiad yn Cymru'n Un i gefnogi busnesau drwy gyfrwng ein Cymorth Hyblyg i Fusnes, gan gynnwys darparu un pwynt cyswllt, rheoli perthynas gwell a Chronfa Fuddsoddi Sengl.

Temporary and Agency Workers

Q11 Joyce Watson: What assessment has the Minister made of the contribution of temporary and agency workers to the Welsh economy?
OAQ(3)0481(ECT)

The Deputy First Minister: No formal assessment has been made, however temporary workers represent an important part of the workforce and have contributed to the successful performance of the economy over the last several years.

Gweithwyr Dros Dro ac Asiantaeth

C11 Joyce Watson: Pa asesiad sydd wedi'i wneud gan y Gweinidog o gyfraniad gweithwyr dros dro ac asiantaeth i economi Cymru?
OAQ(3)0481(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Ni wnaed unrhyw asesiad ffurfiol. Fodd bynnag, mae gweithwyr dros dro yn rhan bwysig o'r gweithlu ac maen nhw wedi cyfrannu at berfformiad llwyddiannus yr economi dros y blynyddoedd diwethaf.

Cynlluniau Trafnidiaeth

C12 Paul Davies: Pa ystyriaeth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei rhoi i effaith cynlluniau trafndiaeth ar economïau lleol yng Nghymru?
OAQ(3)0496(ECT)

The Deputy First Minister: We take this into account through the WelTAG appraisal of all transport proposals that require either public funding or Welsh Assembly Government approval.

Transport Schemes

Q12 Paul Davies: What consideration is the Welsh Assembly Government giving to the impact of transport schemes on local economies in Wales?
OAQ(3)0496(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Rydym yn rhoi ystyriaeth i hynny drwy gyfrwng arfarniad Canllawiau Cynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru o'r holl gynigion trafndiaeth sydd angen arian cyhoeddus neu gymeradwyaeth Llywodraeth Cynulliad

Cymru.

Improving Road Safety

Q13 Chris Franks: What measures have been put in place to improve road safety in Rhondda Cynon Taf? OAQ(3)0542(ECT)

The Deputy First Minister: The implementation of road safety measures in Rhondda Cynon Taf generally rests with the local authority. The Assembly Government implements various schemes on the trunk road network which also help to improve road safety.

Dileu'r Gyfradd Dreth 10c

C14 Bethan Jenkins: A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch y goblygiadau i economi Cymru yn sgîl dileu'r gyfradd dreth 10c? OAQ(3)0490(ECT)

The Deputy First Minister: The taxation system, as a reserved matter, is the responsibility of the Chancellor of the Exchequer. The Assembly Government's priority is to ensure that the Welsh economy continues to grow and that the people of Wales continue to prosper.

Sustainable Transport

Q15 Darren Millar: Will the Minister make a statement on his plans for sustainable transport in Wales? OAQ(3)0533(ECT)

The Deputy First Minister: I set out my vision for a sustainable transport system in the Transport Strategy, 'Connecting The Nation', published yesterday.

Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd

C13 Chris Franks: Pa gamau a gymerwyd i wella diogelwch ar y ffyrdd yn Rhondda Cynon Taf? OAQ(3)0542(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Ar y cyfan, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am weithredu mesurau diogelwch ar y ffyrdd yn Rhondda Cynon Taf. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithredu amryw o gynlluniau ar y rhwydwaith cefnffyrdd sydd hefyd o gymorth i wella diogelwch ar y ffyrdd.

Abolition of the 10p Tax Rate

Q14 Bethan Jenkins: Has the Minister had any discussions with the UK Government regarding the implications for the Welsh economy of the abolition of the 10p tax rate? OAQ(3)0490(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Canghellor y Trysorlys sy'n gyfrifol am y system drethu, fel mater neilltuedig. Blaenoriaeth Llywodraeth y Cynulliad yw sicrhau bod economi Cymru yn parhau i dyfu a bod pobl Cymru yn parhau i lwyddo.

Trafnidiaeth Gynaliadwy

C15 Darren Millar: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy yng Nghymru? OAQ(3)0533(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Datgelais i fy ngweledigaeth ar gyfer system dtrafnidiaeth gynaliadwy yn y Strategaeth Dtrafnidiaeth, 'Cysylltu Cymru', a gyhoeddwyd ddoe.